**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 14EG IONAWR 2020 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd C. Brockley (Cadeirydd)
Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, B. Barton, Mrs M. Jones (Dirprwy Faer), J. Pearson (Warden Coed), M. Worth.

**SWYDDOGION:** Mrs Tina Earley Clerc y Dref
Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol

**335/19 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D. Bradley C. Matthews ag M. Tasker.

**336/19 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**337/19 Cofnodion:**

***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 17eg Rhagfyr 2019 yn adroddiad cywir.***

**338/19 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol:**

a) **Cofnod 267/19 – Canolbwynt Casglu Sbwriel:**

Rhoddodd y Clerc diweddariad ar lafar gan ddweud wrth yr Aelodau ei bod hi a'r Clerc Cynorthwyol wedi bod mewn cyfarfod gyda Phil Vipond, CBS Conwy a Gwyl Roche, Cadwch Gymru'n Daclus (CGD), er mwyn trafod logisteg y cynllun. Y bwriad yw cael 5 o ganolbwyntiau mewn ardaloedd lleol yn Sir Conwy ac i'n canolbwynt ni cynnwys Llysfaen a Mochdre. Bydd CGD yn archebu 20 o becynnau o offer i'w danfon i Neuadd y Dref. Bydd grwpiau yn gallu defnyddio'r canolbwynt i gadw eu hoffer fel y gellir ei rannu. Bydd staff Neuadd y Dref yn dosbarthu'r offer a bydd pob grŵp yn gorfod cwblhau ffurflen cytundeb a baratowyd gan CGD. Bydd unrhyw ymholiadau a dderbynnir trwy GBS Conwy a CGD yn cael eu hanfon atom ni. Unwaith bydd yr offer wedi dychwelyd, yna rhaid anfon y data at Epi-Collect i gadarnhau'r lleoliad y casglwyd y sbwriel a'r nifer o fagiau a gasglwyd. Rhoddir hyfforddiant i'r staff fel y gallent anfon data at Epi-Collect. Nodwyd gan yr Aelodau bod hyn yn golygu mwy o waith i staff Neuadd y Dref nag a ragwelwyd a rhaid monitro hyn. Fe ddylai'r cynllun bod yn weithredol o fewn y mis nesaf.

b) **Cofnod 316/19(c) - Gweithgor Sul y Cofio – Diwrnod VE/VJ:**

Cyflwynodd y Clerc e bost oddi wrth Uke a Bay. Fe nodwyd dyddiadau'r Ŵyl gan yr Aelodau, sef yr wythnos cyn dyddiad arfaethedig Gŵyl y Pedwardegau.

**c) Cofnod 316/19(d) – Cabanau Aros Bysiau:**

Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth GBS Conwy yn dweud bod cost y caban newydd ar gyfer Ffordd Hesketh i gael ei dalu allan o'u cyllideb hwy.

***Penderfynwyd nodi'r diweddariad ac i groesawu'r newyddion na fydd cost y caban newydd i gael ei gyllido allan o arian y Cyngor Tref.***

**339/19 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol a dderbyniwyd oddi wrth GBSC er gwybodaeth / i gael ei ystyried;

**a) Rheoliadau Traffig Dros Dro:**

(i) O Gyffordd Ffordd Abergele hyd at Gyffordd Ffordd Eleanor – 27/1 – 11/2/2020 ( Gwaith Nwy)
(ii) O Gylchfan Ffordd Eirias hyd at Dingle Hill – 31/1/ - 31/7/2021 (Diogelwch y Cyhoedd – Digwyddiadau yn Stadiwm 'Zip World').
(iii)Woodland Road East, y tu allan i'r Ficerdy – 10/2/ - 17/2/2020 (Gwaith Nwy)
(iv)O Gyffordd Ffordd Wynnstay hyd at Gyffordd Rhodfa Wynn - 27/4/ - 11/5/2020 (Gwaith Nwy)

***Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth***.

**b) Cynnig i Enwi Stryd:**

Cyflwynodd y Clerc cynnig i enwi stryd yn cynnwys awgrymiadau dewisol oddi wrth Gynghorwyr Sirol Conwy i'w enwi yn Gwrt Sefton.. Cytunodd y Pwyllgor i gefnogi'r enw Cwrt Sefton

***Penderfynwyd argymell i'r Cyngor cefnogi'r enw 'Cwrt Sefton'.***

**340/19 <u>Llywodraeth Cymru:</u>**

a) Cyflwynodd y Clerc Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Nodyn Cyngor Technegol Rhif 15: Datblygiad, Llifogydd ag Erydiad yr Arfordir.
b) Cyflwynodd y Clerc copi o Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Newidiadau i Ffioedd Cynllunio a Phethau Cysylltiedig.
c) Cyflwynodd y Clerc e-bost a Llinell Amser ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol..

***Penderfynwyd nodi'r Ymgynghoriadau a'r diweddariad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol..***

**341/19 <u>Diogelwch Seiber:</u>**

Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth Livetech ynglŷn ag arolwg o ddiogelwch gwefan y Cyngor Tref o gofio digwyddiadau diweddar yn y

Dwyrain Canol. Cynigodd y Cadeirydd i wneud ymchwil i'r dewisiadau a gynigiwyd ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

***Penderfynwyd gohirio'r eitem hon i'r cyfarfod nesaf a disgwyl am adroddiad gan y Cadeirydd.***

**342/19 <u>Gohebiaeth Arall:</u>**

Cyflwynodd y Clerc yr eitemau canlynol ac fe nodwyd gan yr Aelodau eu bod ar gael gan y Clerc ar gais:

a) Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn a gynhaliwyd ar 11/12/2019.
b) Taflen Newyddion Cymdeithas Tramffordd Llandudno a Bae Colwyn.

**343/19 <u>Cynllunio</u>:**

**a** Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

***Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.***

**b** ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy yn y cyfnod 2/12/19 hyd at 29/12/19.***

**c <u>Y Pwyllgor Cynllunio:</u>**

(i) Dywedodd y Cynghorydd Barton ei fod wedi bod ar yr ymweliad a safleoedd yn Ffordd Dolwen a'r Promenâd yn Hen Golwyn.
(ii) Dywedodd y Cynghorydd Barton ei fod wedi siarad yn y Pwyllgor Cynllunio hefyd a dywedodd wrth y Pwyllgor bod y ddau gais (Ffordd Dolwen a'r Promenâd yn Hen Golwyn) wedi cael caniatâd amodol.

***Penderfynwyd nodi adroddiad y Cynghorydd Barton.***

**ch <u>Cymorth Cynllunio Cymru:</u>**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Clerc bod 3 lle wedi cael eu cadw ar gyfer 'Gwaith yr Arolygaeth Cynllunio - Cyflwyniad i Gynghorau Cymuned' sydd i'w gynnal yn Venue Cymru ar 24ain Ionawr 2020. Fe nodwyd bod y Cynghorwyr Baker a Barton eisoes wedi cadw lle a dywedodd y Clerc a'r Cynghorydd J. Pearson yr hoffent fod yn bresennol.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon e-bost at bob aelod o'r Pwyllgor i ofyn a hoffai rhywun cymryd y lle sydd ar ôl.***

**344/19 <u>Trwyddedau:</u>**

Ni dderbyniwyd dim.

**345/19 <u>Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar (NDCS):</u>**

Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth NDCS yn dweud am y newid i restr y dyddiadau'r casgliad o'r ddau safle ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.20 pm ……………………… Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6:30PM ON TUESDAY 14TH JANUARY 2020, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY**

**PRESENT:** Cllr C Brockley, Chairman
Cllrs: G Baker; B Barton; Mrs M Jones (Deputy Mayor); J Pearson; M Worth

**OFFICER:** Mrs C Earley, Town Clerk
Mrs R Dudley, Assistant Clerk

**335/19 <u>Welcome and Apologies for Absence</u>:**

The Chairman welcomed members to the meeting and apologies for absence were received from D Bradley, C Matthews and M Tasker.

**336/19 <u>Declarations of Interest</u>**:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

**337/19 <u>Minutes</u>**:

***Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 17th December 2019.***

**338/19 <u>Matters Arising from the Minutes</u>:**

**a) Min 267/19 – Litter Pick Hub:**

The Clerk gave a verbal update informing members that she and the Assistant Clerk had attended a meeting with Phil Vipond, Conwy CBC and Gwyl Roche, Keep Wales Tidy (KWT) to discuss the logistics of the scheme. The plan is to have a hub in 5 Conwy County local areas and our hub will include Llysfaen and Mochdre. KWT will order 20 pieces of kit to be delivered to the Town Hall. Groups will be able to use the hub to store existing equipment, so it can also be shared. Town Hall Staff will issue the equipment and all groups will have to complete an agreement form which KWT have produced. Enquiries via Conwy CBC and KWT will be signposted to us. Once the equipment has been returned, then data has to be submitted to Epi- Collect confirming the location of the litter pick and the number of bags collected. Training will be given to staff to enable them to submit data to Epi-Collect. Members commented it was more work for Town Hall Staff than had been envisaged and this would need monitoring. It was noted that the scheme should be up and running within the next month.

***b)*** **Min 316/19(c) – Remembrance Sunday Working Group – VE/VJ Day:**

The Clerk an email from Uke A Bay. Members noted the Festival dates for

2020, which were the week before the proposed date for the Forties Festival.

**c) Min 316/19(d) – Bus Shelters:**

The Clerk submitted an email from Conwy CBC stating that the replacement shelter for Hesketh Road would be paid from their budget.

***Resolved to note the update and welcome the news that the new shelter will not need to be funded from the Town Council's funds.***

**339/19 <u>Conwy CBC</u>:**

The Clerk submitted, for information/consideration, the following correspondence from CCBC:

**a) Temporary Traffic Regulations:**
(i) Jct of Abergele Road to Jct with Eleanor Road – 27/1 – 11/02/ 2020 (Gas Work)
(ii) Eirias Road Roundabout to Dingle Hill – 31/01 31/07/2021 (Public Safety – events at Zip World Stadium)
(iii) Woodland Road East, outside the vicarage – 10/02 – 17/02/2020 (Gas Work)
(iv) Jct of Wynnstay Road to Jct of Wynn Avenue – 27/4 – 11/05/2020 (Gas Work)

***Resolved to note the correspondence.***

**b) Proposal for Naming of a Street:**

The Clerk submitted a street naming proposal to include alternative suggestions from Conwy County Councillors to name it Cwrt Sefton. The Committee supported the proposal of Cwrt Sefton.

***Resolved to recommend to Council that the name 'Cwrt Sefton' be supported.***

**340/19 <u>Welsh Government</u>:**

a) The Clerk submitted the WG Consultation on Technical Advice Note 15: Development Flooding and Coastal Erosion.
b) The Clerk submitted a copy of the Welsh Government's Consultation on the Changes to Planning and Related Fees.
c) The Clerk submitted an email and Timeline for the National Development Framework.

***Resolved to note the Consultations and NDF update.***

**341/19 <u>Cyber Security</u>:**

The Clerk submitted an email from Livetech concerning a review of the security of the Town Council's our website in view of the recent events in the Middle East. The Chair offered to do some research on the options proposed and report back to the next meeting.

***Resolved to defer this item to the next meeting to await the report of the Chairman.***

**342/19 Other Correspondence**:

The Clerk submitted the following items and members noted these were available on request:
a) Minutes from OCRA Meeting held on 11/12/2020.
b) Newsletter from the Llandudno and Colwyn Bay Tramway Society.

**343/19 Planning:**

**a)** The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.
***Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule 'A' attached.***

**b)** ***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 02/12/2019 – 29/12/2019***.

**c) Planning Committee:**
(i) Cllr Barton reported that he had attended the site visits to Dolwen Road and Old Colwyn Promenade.
(ii) Cllr Barton had also spoken at the Planning Committee meeting and he informed the Committee that both applications (Dolwen Road and Old Colwyn Promenade) had been given consent, subject to conditions.

***Resolved to note the report from Cllr Barton.***

**d) Planning Aid Wales:**
The Clerk informed members that 3 places had been reserved on 'The Work of the Planning Inspectorate – an introduction for Community Councils' to be held at Venue Cymru on 24th January 2020. It was noted that Cllrs Baker and Barton had already reserved a place and the Clerk and Cllr J Pearson expressed an interest in attending.

***Resolved to request that the Clerk email all Committee members to see if anyone is able to take up the remaining place.***

**344/19 Licensing:**

None were received.

**345/19 National Deaf Children's Society (NDCS):**

The Clerk submitted an email from NDCS informing of a change of schedule date for the two collection sites, which was noted by members.

The meeting closed at 7.20p.m. ……………………… Chairman